# ADRODDIAD GORFODAETH CYNLLUNIO

**CYFEIRIF** ENF/2012/00020

**LLEOLIAD:** Gwesty'r Royal, Stryd y Bont, Llangollen

**TRAMGWYDDIAD:** Newid defnydd heb ganiatad o Westy i ddefnydd cymysg o Westy a Hostel yn rhoi lloches i bobl ddigartref

## POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL SIR DDINBYCH
Polisi GEN 6 – Gofynion Rheoli Datblygu
Polisi GEN 1 –Datblygu y tu mewn i Ffiniau Ddatblygu
Polisi CON 3 – Newid Defnydd Adeiladau Rhestredig
Polisi CON 5 –Datblygu mewn Ardal Gadwraeth
Polisi RET 1 – Canol Trefi ac Ardaloedd

CANLLAWIAU'R LLYWODRAETH
Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 4 (2011)
Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 9 – Gorfodi Rheolaeth Cynllunio

YSTYRIAETHAU HAWLIAU DYNOL
Talwyd sylw i ddarpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 wrth ystyried cymryd camau gorfodaeth yn erbyn datblygiad heb ei awdurdodi ar dir a materion cysylltiedig.

Mae'r achos arbennig hwn yn cyfeirio at hawl perchennog i newid defnydd gwesty rhestredig Gradd II i ddefnydd cymysg o Westy a Hostel yn rhoi lloches i bobl ddigartref heb ganiatâd cynllunio.

Nid yw hawliau perchennog yn yr achos hwn yn gorbwyso hawliau'r Awdurdod Cynllunio Lleol i sicrhau fod toriadau o reolaeth cynllunio yn derbyn sylw.

Ni chodwyd unrhyw faterion hawliau dynol yn yr achos hwn.

## 1. GWYBODAETH GEFNDIR

1.1 Mae Gwesty'r Royal yn adeilad rhestredig Gradd II yng nghanol tref Llangollen, sy'n ardal Gadwraeth ddynodedig ac mewn Ardal o Harddwch Eithriadol. Mae'r safle hefyd o fewn Parth Byffer Safle Treftadaeth y Byd ac yn dirnod twristaidd amlwg yn y dref.

1.2 Cafodd Swyddog Cydymffurfio wybod am y tramgwyddiad honedig uchod ar 11 Gorffennaf 2012. Gan fod Dosbarth Defnydd Gwesty yn Ddosbarth C1 a bod Dosbarth Defnydd Hostel yn cael ei ystyried fel 'sui generis', byddai newid defnydd i ddefnydd cymysg yn golygu fod angen caniatâd cynllunio. Ni chyflwynwyd cais.

1.3 Er mwyn penderfynu a oedd newid defnydd wedi digwydd, cyflwynwyd Rhybudd Tramgwyddiad Cynllunio i'r perchennog ar 27 Gorffennaf 2012. Cafodd yr holiadur ei gwblhau a'i ddychwelyd i'r awdurdod hwn wedi'i ddyddio 16 Awst 2012 a chafodd yr wybodaeth ganlynol oedd ynddo ei adolygu fel a ganlyn:-

1.4

1.5 (i) Yn achos ***Mayflower Cambridge Ltd v Sec of State for the Environment (1975),*** dywedodd yr Arglwydd Widgery "**nodwedd sylfaenol gwesty, fel y defnyddir y gair yn yr iaith Saesneg, yw ei fod yn cynnwys poblogaeth symudol oherwydd ei fod yno i wasanaethu pobl yn teithio sydd angen aros am gyfnodau <u>byr</u> un unig".** Dangosodd yr ymatebion i'r holiadur fod, rhwng 4 Ebrill - 16 Awst 2012, 6% o ystafelloedd y gwesty'n cael eu defnyddio i roi lloches i bobl

ddigartref am gyfnodau o rhwng un wythnos ac un mis, 16% am gyfnodau o fwy nac un mis a 6% am fwy na dau fis.

1.6 (ii) Ar y diwrnod pan gafodd yr holiadur ei gwblhau, roedd 20.6% o’r ystafelloedd yn cael eu defnyddio gan bobl heb unrhyw gyfeiriad trigiannol parhaol arall ac wedi eu hanfon yno gan Gyngor Bwrdeistref Wrecsam, a oedd yn talu am eu llety.

1.7 Ym marn Swyddogion, mae’r ymateb i’r Rhybudd Tramgwyddiad Cynllunio yn cadarnhau y bu newid defnydd o ddefnydd gwesty yn unig ar gyfer pobl gyda chyfeiriad parhaol yn rhywle arall i ddefnydd heb awdurdod o Westy a Hostel ar gyfer y digartref.

## 2. Y RHESYMAU DROS GYFLWYNO RHYBUDD GORFODAETH

2.1 Mae newid defnydd y gwesty i ddefnydd cymysg wedi digwydd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

2.2 Ni chyflwynwyd cais cynllunio dilys i geisio dilysu’r newid defnydd.

2.3 Ystyrir fod newid defnydd heb awdurdod y llety twristaidd amlwg ac eiconig hwn yn groes i bolisïau sydd yn y Cynllun Datblygu Unedig sydd wedi'i fabwysiadu ar hyn o bryd.

**Polisi GEN 6 –** ystyrir fod y defnydd cymysg a nodwyd yn effeithio’n annerbyniol ar nodweddion y gymdogaeth oherwydd cynnydd mewn gweithgaredd (maen prawf v) ac yn peryglu adeilad sy'n cael ei ddiogelu ar gyfer defnyddiau eraill (maen prawf ix).

**Polisi TSM 8 –** ystyrir nad yw’r defnydd cymysg a nodwyd yn cydymffurfio â’r meini prawf yn y polisi a fabwysiadwyd sy'n ceisio diogelu llety presennol sy'n cynnig gwasanaeth.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Fod y Pwyllgor Cynllunio’n awdurdodi cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth gyda chyfnod cydymffurfio o ddau fis yn gofyn am atal y defnydd cymysg fel gwesty a hostel ar gyfer pobl ddigartref a dychwelyd i un defnydd fel Gwesty’n darparu llety arhosiad byr i deithwyr gyda chyfeiriadau parhaol yn rhywle arall.

3.2 Dechrau ar achos erlyn os bydd unrhyw berson mae Rhybudd Gorfodaeth wedi'i gyflwyno iddo / iddi yn methu neu'n gwrthod cydymffurfio â gofynion y Rhybudd.